Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned, Awst 2023 i Orffennaf 2024

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod ystadegau:** | Sta/Medr/07/2025 |
| **Dyddiad:** | 12 Mawrth 2025 (wedi’r ddiweddaru 03 Hydref 2025) |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol (gweler y newid mewn statws ystadegau achrededig) |
| **E-bost:** | ystadegau@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | **Ystadegau ar lwyddiant a chwblhau prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned yn ôl lefel astudio, math o nod dysgu, sector, a nodweddion dysgu** |
| **Thema:** | Prentisiaethau, Dysgu Oedolion yn y Gymuned |
| **Ffynhonnell:** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg |
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys


Nodyn ..... 1
Prif Bwyntiau ..... 1
Prentisiaethau ..... 1
Dysgu Oedolion yn y Gymuned ..... 1
Crynodeb ..... 2
Prentisiaethau ..... 3
Deilliannau yn ôl lefel rhaglen ..... 3
Sector ..... 4
Oedran ..... 5
Amddifadedd ..... 6
Prydau Ysgol Am Ddim ..... 7
Ethnigrwydd ..... 8
Rhesymau dros ddod â phrentisiaethau heb eu cwblhau i ben ..... 9
Sgiliau Hanfodol ..... 10
Cyfrwng Cymraeg ..... 12
Nodiadau ..... 12
Atal mesurau perfformiad yn 2019/20 a 2020/21 ..... 13
Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg ..... 13
Dileu ac adfer ystadegau dysgu cymunedol awdurdod lleol ..... 13
Datganiad Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ..... 14
Ystadegau cysylltiedig ..... 15
Y Diweddariad Nesaf ..... 15
Gwybodaeth Gyswllt ..... 15

## Nodyn

Tynnwyd ystadegau dysgu oedolion yn y gymuned o fersiwn wreiddiol y datganiad hwn oherwydd problemau'n gysylltiedig ag ansawdd data. Mae ymchwiliad wedi cael ei gynnal i hyn a'r gwallau wedi'u cywiro. Mae'r daenlen gysylltiedig a thablau StatsCymru bellach wedi'u diweddaru ag ystadegau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae Adroddiadau ar Ddeilliannau Dysgwyr ar gyfer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned hefyd wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddiweddaru drwy gynnwys y prif fesurau, ond nid yw'n cynnwys dadansoddiad manwl.

Gweler yr wybodaeth am Ansawdd a methodoleg am fanylion.

## Prif Bwyntiau

### Prentisiaethau

- Cynyddodd cyfradd llwyddo prentisiaethau yn 2023/24 i 74%. Mae'n dal yn is na'r gyfradd cyn pandemig Covid-19.
- Prentisiaethau lefel sylfaen a ddangosodd yr adferiad cryfaf yn 2023/24.
- Mae’r gyfradd llwyddo ar gyfer prentisiaethau uwch yn llawer is nag ar gyfer lefelau eraill, a dyna'r gyfradd lle gwelwyd yr adferiad lleiaf ers y pandemig.
- Ni wnaeth prentisiaid uwch ond pasio ychydig dros hanner y gweithgareddau sgiliau hanfodol cymhwyso rhif a gwblhawyd ganddynt.
- Bu cynnydd yn y gyfradd llwyddo gyffredinol yn y sectorau mwy canlynol:
    - Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus;
    - Lletygarwch;
    - Hamdden, Chwaraeon a Theithio.
- Ymhlith y sectorau mwy, gostyngodd y gyfradd llwyddo mewn
    - Adeiladu;
    - Rheolaeth a Phroffesiynol.
- Mae'r bwlch yn y gyfradd llwyddo rhwng dysgwyr yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus yn cau.
- Bu cynnydd mawr yng nghyfradd llwyddo dysgwyr ar draws cefndiroedd lleiafrifol ethnig.
- Cafwyd cyfradd llwyddo uwch na'r cyffredin mewn gweithgareddau prentisiaeth a gwblhawyd yn gyfan gwbl yn Gymraeg.

### Dysgu Oedolion yn y Gymuned

- Cynyddodd y gyfradd cwblhau ar gyfer gweithgareddau dysgu oedolion o 94% yn 2022/23 i 95% yn 2023/24.
- Cynyddodd y gyfradd llwyddo ar gyfer gweithgareddau dysgu oedolion asesadwy o 84% yn 2022/23 i 87% yn 2023/24.


## Crynodeb

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno deilliannau prentisiaethau o flwyddyn academaidd 2023/24.

Ni chynhyrchwyd y mesurau deilliannau safonol ym mlynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21 oherwydd y pandemig. Ceir rhagor o wybodaeth yn y nodiadau.

**Cynyddodd cyfradd llwyddo prentisiaethau o 72% yn 2022/23 i 74% yn 2023/24.**

Ffigur 1: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2013 i Orffennaf 2024





Disgrifiad: Mae'r gyfradd llwyddo prentisiaethau yn parhau i adfer yn dilyn y pandemig. Ceir bwlch o hyd rhwng y gyfradd llwyddo gyfredol a'r cyfraddau llwyddo cyn y pandemig.

Data ar StatsCymru

**Cynyddodd cyfradd llwyddo dysgu oedolion yn y gymuned o 84% yn 2022/23 i 87% yn 2023/24**

Ffigur 1: Cyfradd llwyddo dysgu oedolion yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2013 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Mae cyfradd llwyddo dysgu oedolion yn parhau i wella ers y pandemig, ond mae bwlch yn dal i fodoli rhwng y gyfradd llwyddo bresennol a'r gyfradd llwyddo cyn y pandemig.

Data ar StatsCymru

## Prentisiaethau

Cynigir prentisiaethau ar 4 lefel:

- Prentisiaethau sylfaen – Lefel 2 (cyfwerth â chymwysterau TGAU graddau A* i C)
- Prentisiaethau – Lefel 3 (cyfwerth â chymwysterau Safon Uwch)
- Prentisiaethau uwch – Lefel 4 ac uwch (cyfwerth â gradd sylfaen)
- Prentisiaethau gradd – Lefel 6 ac uwch (cyfwerth â gradd baglor)


Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â phrentisiaethau sylfaen, prentisiaethau lefel 3, a phrentisiaethau uwch. Nid ydynt yn cynnwys prentisiaethau gradd.

Rhaid i ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth ennill amrywiaeth o gymwysterau er mwyn ennill eu prentisiaeth. Y gyfradd llwyddo yw canran y rhai a adawodd brentisiaethau a gwblhaodd y fframwaith prentisiaeth llawn.

## Deilliannau yn ôl lefel rhaglen

**Gwelwyd cynnydd yn y gyfradd llwyddo ar bob lefel prentisiaeth**

Ffigur 2: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl lefel a blwyddyn academaidd, Awst 2016 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Mae'r gyfradd llwyddo ar gyfer pob un o'r tair lefel o brentisiaethau ar eu huchaf ers 2018/19, cyn y pandemig.

Data ar StatsCymru

Prentisiaethau sylfaen a welodd y cynnydd mwyaf mewn cyfraddau llwyddo yn 2023/24 gyda chynnydd o 4 pwynt canran o 2022/23. Mewn prentisiaethau uwch, gwelwyd cynnydd o un pwynt canran o 2022/23, y twf cyntaf a welwyd ers 2017/18. Mewn prentisiaethau lefel 3, gwelwyd cynnydd pellach o ddau bwynt canran yn 2023/24.


Nid yw'r gyfradd llwyddo prentisiaethau uwch wedi adfer ers y pandemig i'r un graddau â'r adferiad a welwyd mewn prentisiaethau sylfaen a lefel 3. Gwelwyd cyfraddau llwyddo sylweddol is mewn dau ddarparydd prentisiaethau uwch o gymharu a'r wyth darparydd

arall. Cyfradd llwyddo gyffredinol prentisiaethau uwch yw 68%, ond o eithrio'r ddau ddarparydd hyn, byddai'r gyfradd llwyddo prentisiaethau uwch yn 71%.

## Sector

**Ym mwyafrif y sectorau gwelwyd cynnydd yn y gyfradd llwyddo**

Ffigur 3: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl maes pwnc sector a blwyddyn academaidd, Awst 2022 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Y sectorau lle gwelwyd y cynnydd mwyaf oedd Lletygarwch a Hamdden, Chwaraeon a Theithio. Mewn Adeiladu a Thrafnidiaeth y gwelwyd y gostyngiadau mwyaf.

Data ar StatsCymru

O'r 13 sector, gwelwyd cynnydd yng nghyfraddau llwyddo 8 ohonynt o 2022/23 i 2023/24. O'r pum sector a oedd yn weddill, gwelwyd cyfraddau llwyddo is ac arhosodd dau heb newid.

Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r sector mwyaf ac roedd i gyfrif am 42% o'r holl rai a adawodd brentisiaeth yn 2023/24. Gwelwyd twf o chwe phwynt canran yng nghyfradd lwyddo Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2023/24. Mae hyn wedi cefnogi adferiad parhaus deilliannau prentisiaeth, ond mae'r gyfradd lwyddo yn dal i fod yn is nag 11 o'r 12 sector arall. Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yw un o'r

sectorau sydd wedi adfer gryfaf yn dilyn y pandemig, gyda'r gyfradd lwyddo yn cynyddu 15 pwynt canran o 2021/22 i 2023/24. Mae'r gyfradd llwyddo ar gyfer y sector hwn yn dal 11 pwynt canran yn is na'r ffigur olaf a welwyd cyn y pandemig.


Rheolaeth a Phroffesiynol oedd y ail sector mwyaf, ac Adeiladu oedd y pumed sector mwyaf yn 2023/24, ond gwelwyd gostyngiad yng nghyfraddau llwyddo'r ddau sector.

Rheolaeth a Phroffesiynol oedd y sector mwyaf ar gyfer prentisiaethau uwch a'r sector hwnnw oedd i gyfrif am 46% o ymadawyr. Gwelwyd gostyngiad o ddau bwynt canran yn y gyfradd llwyddo, sy'n esbonio'n rhannol y cynnydd mwy cymedrol yng nghyfradd llwyddo y prentisiaethau uwch.

## Oedran

**Ym mhob oed, ar wahân i bobl ifanc 17 oed, gwelwyd cynnydd yng nghyfradd llwyddo prentisiaethau**

Ffigur 4: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl oedran ar ddechrau prentisiaeth yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2021 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Pobl ifanc 19 oed oedd y prentisiaid a berfformiodd orau gyda chyfradd llwyddo o 80%, cynnydd 5 pwynt canran o'r flwyddyn gynt.

Data ar StatsCymru


Y grŵp oedran a berfformiodd waethaf oedd y rhai rhwng 50 a 64 oed gyda chyfradd llwyddo o 70%. Fodd bynnag roedd hyn yn gynnydd o 4 pwynt canran o gymharu â 2022/23.

Y grŵp oedran â’r nifer fwyaf a adawodd brentisiaeth oedd y grŵp 25 i 49 oed. Y dysgwyr hyn oedd i gyfrif am 49% o'r holl rai a adawodd brentisiaeth. Y gyfradd llwyddo ar gyfer y grŵp oedran hwn oedd 73%.

# Amddifadedd

**Mae’r bwlch yng nghyfradd llwyddo prentisiaethau rhwng yr ardaloedd mwyaf amddifadus a lleiaf amddifadus yng Nghymru yn cau**

Ffigur 5: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl degradd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a blwyddyn academaidd, Awst 2022 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: bu gwelliant i gyfraddau llwyddo ar draws pob lefel amddifadedd yn 2023/24, ar wahân i'r pumed a nawfed degradd.

[Sylwch]: Mae’r siart hon yn seiliedig ar amddifadedd yr ardal fechan y mae dysgwr yn byw ynddi. Nid yw'n seiliedig ar amddifadedd y dysgwr ei hun. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt yn amddifadus yn byw mewn ardaloedd amddifadus, ac fel arall. Mae'r degradd 1af yn cynrychioli'r 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus, a'r 10fed yn cynrychioli'r 10% o ardaloedd lleiaf amddifadus.


Data yn Nhabl 1.1 yn y llyfr gwaith cysylltiedig.

Yn 2023/24, y bwlch rhwng cyfraddau llwyddo yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus oedd 7 phwynt canran; roedd hyn yn ostyngiad o 1 bwynt canran o gymharu â 2022/23. Fodd bynnag, mae’r bwlch yn dal ddwywaith yn fwy na'r ffigurau cyn y pandemig, lle'r oedd gwahaniaeth o dri phwynt canran rhwng deilliannau'r ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus yng Nghymru.

## Prydau Ysgol Am Ddim

**Mae’r bwlch yn y gyfradd llwyddo rhwng prentisiaid a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw bryd, ac nad oeddent fyth yn gymwys ar gyfer hynny, yn cau**

Ffigur 6: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim (PYD) fesul blwyddyn academaidd, Awst 2016 i Orffennaf 2024.




Disgrifiad: Roedd gan brentisiaid a oedd wedi bod yn gymwys i dderbyn PYD ar unrhyw bryd gyfradd llwyddo o 73% yn 2023/24. Roedd hyn yn fwlch o 6 phwynt canran o gymharu â phrentisiaid nad oeddent erioed wedi bod yn gymwys i gael PYD.

[Sylwch]: Caiff cymhwystra i gael Prydau Ysgol am Ddim ei gyfrifo drwy baru dysgwyr â'u cofnod yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) drwy'r set ddata addysg gyfatebol (MED). Ni ellir paru pob dysgwr, er enghraifft, dysgwyr a fynychodd ysgol uwchradd y tu allan i Gymru neu o'r cyfnod cyn 2010/11 (blwyddyn gyntaf cofnodion yn MED).


Data yn Nhabl 1.2 yn y llyfr gwaith cysylltiedig.

Mae’r bwlch o 6 phwynt canran yn y gyfradd llwyddo rhwng y rhai a oedd yn gymwys i gael PYD ar unrhyw bryd, a'r rhai nad oeddent fyth yn gymwys i gael PYD hanner mor fawr ag yr oedd yn 2021/22. Mae'r bwlch yn dal i fod 2 bwynt canran yn fwy na'r cyfnod cyn y pandemig.

## Ethnigrwydd

**Gwelwyd cyfraddau llwyddo uwch ymhlith y mwyafrif o grwpiau ethnig**

Ffigur 7: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl grŵp ethnig manwl a blwyddyn academaidd, Awst 2022 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Gwelwyd y gwelliant mwyaf mewn cyfraddau llwyddo ymhlith dysgwyr â chefndir Gwyn a Du Caribïaidd. Y dysgwyr hyn oedd â’r gyfradd llwyddo isaf yn 2022/23 a’r gyfradd llwyddo uchaf yn 2023/24. Deuai'r dysgwyr â'r gostyngiad mwyaf o gefndiroedd Bangladeshaidd neu gefndiroedd eraill Cymysg neu Luosog.

[Nodyn 1]: Nid yw rhai grwpiau ethnig wedi'u dangos gan fod niferoedd wedi'u hatal yn sgil cohortau bach.


Data yn nhabl 1.3 yn y llyfr gwaith cysylltiedig.

Bu cynnydd mawr mewn cyfraddau llwyddo ar gyfer pob grŵp ethnig eang. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn dysgwyr o gefndir 'Grŵp ethnig arall' gyda chynnydd o 15 pwynt canran mewn cyfraddau llwyddo.

## Rhesymau dros ddod â phrentisiaethau heb eu cwblhau i ben

**Methu oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros ddod â phrentisiaethau i ben**

Dangosyn 8: Rheswm dros ddod â phrentisiaeth i ben yn ôl lefel y brentisiaeth, Awst 2023 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Yr ail reswm mwyaf cyffredin dros ddod â phrentisiaethau heb eu cwblhau i ben oedd "wedi cael swydd", ac yna "rhesymau personol".

Data yn nhabl 1.4 yn y llyfr gwaith cysylltiedig


“Methu” oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros ddod â phrentisiaethau sylfaen heb eu cwblhau i ben, gyda 57% yn dod i ben oherwydd hynny. “wedi cael swydd” oedd y rheswm mwyaf cyffredin nesaf, ar 18%. Gwelwyd patrwm tebyg mewn prentisiaethau Lefel 3, gyda 48% o raglenni heb eu cwblhau yn dod i ben oherwydd "methiant", ac 18% yn dod i ben gan fod dysgwyr "wedi cael swydd" .

O'r dysgwyr na wnaeth gwblhau ei prentisiaeth lefel uwch, daeth 59% o'r prentisiaethau hynny i ben oherwydd "methiant". “Rhesymau personol” oedd y rheswm nesaf mwyaf cyffredin dros ddod â phrentisiaethau heb eu cwblhau i ben, ar 19%. O gymharu â phrentisiaethau sylfaen a phrentisiaethau lefel 3, mae canran is o brentisiaid uwch yn gadael er mwyn dechrau swydd.

## Sgiliau Hanfodol

**Mae gan brentisiaid gyfraddau llwyddo is mewn sgiliau hanfodol cymhwyso rhif a chyfathrebu nag mewn llythrennedd digidol.**

Ffigur 9: Cyfradd llwyddo gweithgaredd prentisiaeth yn ôl math o sgìl hanfodol, Awst 2023 i Orffennaf 2024.




Disgrifiad: Cymwysterau llythrennedd digidol sydd â'r cyfraddau llwyddo uchaf o blith gweithgareddau sgiliau hanfodol a gyflawnir yn rhan o brentisiaethau.

[Nodyn 1]: Cyflwynwyd eithriad i rai fframweithiau prentisiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a ddechreuwyd cyn mis Medi 2022, lle'r oedd modd eu cyflawni heb gwblhau'r sgiliau hanfodol ar eu cyfer. Mae'r rhain wedi'u heithrio o'r ffigur hwn.

Data yn nhabl 1.6 yn y llyfr gwaith cysylltiedig.


Caiff ychydig dros hanner y cymwysterau sgiliau hanfodol cymhwso rhif a gyflawnir gan brentisiaid uwch eu pasio. Ceir cyfraddau llwyddo is ar y cyfan ar draws yr holl weithgareddau sgiliau hanfodol ymlhith prentisiaid uwch.

Mae prentisiaid uwch yn fwy tebygol o fod yn cyflawni sgiliau hanfodol ar lefel uwch, er nad yw'r gwahaniaeth yn eithafol. Mae 88% or gweithgareddau sgiliau hanfodol a gyflawnir gan brentisiaid uwch yn rhai lefel 2, a 10% ohonynt yn rhai lefel 3. Ar gyfer prentisiaethau Lefel 3, mae 96% o'r gweithgareddau sgiliau hanfodol yn rhai lefel 2, a 4% yn rhai lefel 1.

Ar gyfer pob prentis, mae’r gyfradd llwyddo ar gyfer cymwysterau sgiliau hanfodol mewn cymhwyso rhif a chyfathrebu yn is na’r gyfradd llwyddo ar gyfer y cymwysterau sgiliau nad ydynt yn hanfodol a gymerwyd fel rhan o’u prentisiaeth.

**Fel arfer, os nad oedd prentisiaid yn pasio eu sgiliau hanfodol, nid oeddent yn pasio eu cymwysterau eraill ychwaith**

Ffigur 10: Mathau o weithgareddau a basiwyd ymhlith dysgwyr na lwyddodd i basio eu prentisiaeth (dysgwyr a gyflawnodd sgiliau hanfodol yn unig), Awst 2023 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Gwnaeth 17% o ddysgwyr na lwyddodd i basio eu prentisiaeth basio eu sgiliau gweithgareddau hanfodol, er na wnaethant basio eu cymwysterau eraill. Nid yw hyn ond yn cynnwys dysgwyr a gwblhaodd sgiliau hanfodol yn rhan o'u prentisiaeth.

Data yn nhabl 1.6 yn y llyfr gwaith cysylltiedig.

Roedd tua 1 o bob 20 o brentisiaethau nas cyflawnwyd yn sefyllfaoedd lle'r oedd y dysgwr wedi pasio rhannau eraill y prentisiaethau yn llwyddianus, ond heb basio'r elfen sgiliau hanfodol.

Mae'r cyfraddau llwyddo cyffredinol ar gyfer sgiliau hanfodol mewn cyfathrebu a chymhwyso rhif yn is nag ar gyfer gweithgareddau sgiliau nad ydynt yn hanfodol. Ceir dau reswm am hyn:


Cofnodwyd bod nifer o ddysgwyr wedi pasio eu fframwaith prentisiaeth a heb basio eu sgiliau hanfodol. Rydym yn ymchwilio i'r mater hwn, oherwydd gallai fod yn gysylltiedig ag ansawdd data.

Nid oes angen i brentisiaid gyflawni sgiliau hanfodol os oes ganddynt gymhwyster cyfwerth yn barod – er enghraifft A* i C mewn TGAU mathemateg. Gallai hyn effeithio ar y gymhariaeth rhwng gweithgareddau sgiliau hanfodol (a gyflawnir gan is-set o ddysgwyr nad oes ganddynt gymwysterau neilltuol) a gweithgareddau sgiliau nad ydynt yn hanfodol (a gyflawnir gan yr holl ddysgwyr).

## Cyfrwng Cymraeg

### Ceir cyfraddau llwyddo uchel mewn gweithgareddau prentisiaeth a gyflawnir yn y Gymraeg

Ffigur 11: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl rhaglen a chyfrwng iaith, Awst 2023 i Orffennaf 2024.




Disgrifiad: Gweithgareddau a gaiff eu hastudio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg sydd â'r gyfradd llwyddo uchaf. Gweithgareddau dwyieithog sydd â'r gyfradd llwyddo isaf.

Data yn nhabl 1.5 yn y llyfr gwaith cysylltiedig.

Gweithgareddau a gyflawnwyd yn gyfan gwbl yn y Gymraeg gan brentisiaid sylfaen oedd â'r gyfradd llwyddo uchaf, sef 91%. Roedd gan weithgareddau a gyflawnwyd yn gyfan gwbl yn y Gymraeg gyfraddau llwyddo uwch na gweithgareddau a gyflawnwyd drwy gyfryngau eraill ar bob lefel.

Y gyfradd llwyddo isaf oedd 61% ar gyfer gweithgareddau dwyieithog a gyflawnwyd gan brentisiaid uwch. Mae'r gyfradd llwyddo is a geir yn y gweithgareddau dwyieithog hyn yn esboniad rhannol dros y deilliannau is yng ngweithgareddau'r prentisiaethau uwch, lle caiff 26% o'r gweithgareddau eu cyflawni'n ddwyieithog.

Nid yw'r gwahaniaeth mewn cyfraddau llwyddo o reidrwydd yn deillio o'r cyfrwng dysgu. Gall dysgwyr cyfrwng Cymraeg fod â nodweddion gwahanol i brentisiaid eraill - er enghraifft, efallai eu bod yn llai tebygol o ddod o gefndiroedd amddifadus, neu'n fwy tebygol o gyflawni math neilltuol o brentisiaeth. Gellir astudio mathau penodol o weithgareddau yn y Gymraeg.

## Nodiadau

Ceir tablau ar StatsCymru a thaenlen gysylltiedig ac arni'r holl ddata, a data pellach, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Ceir dogfen wybodaeth atodol ac ynddi wybodaeth bellach am y data yn yr adroddiad hwn.

### Atal mesurau perfformiad yn 2019/20 a 2020/21

Dros ddwy flynedd gyntaf y pandemig, parhawyd i gynnal prentisiaethau dysgu, ond effeithiodd ffyrlo a diswyddiadau ar rai prentisiaid. Cafodd rhai asesiadau eu canslo, eu hoedi neu eu haddasu ar gyfer y ddau fath o ddarpariaeth.

Oherwydd newidiadau i'r modd y dyfarnwyd graddau yn 2020, a'r ffaith bod y pandemig wedi tarfu ar y dysgu, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynhyrchu unrhyw fesurau perfformiad arferol ar gyfer ysgolion neu ddysgu ôl-16 yn 2019/20 na 2020/21.

Ar gyfer pob math o ddysgu ôl-16, cyfrifwyd ystadegau drwy ddefnyddio dulliau newydd o asesu sut yr effeithiwyd ar ddeilliannau dysgu yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys ystadegau newydd ar hyd yr oedi cyn cwblhau dysgu ac ar ddewisiadau dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n mynd i ddysgu ôl-16. Adroddwyd amdanynt yn adroddiadau'r Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (Covid-19). Ni ddylid cymharu'r ystadegau yn adroddiadau'r pandemig â'r mesurau deilliannau dysgwyr a adroddir yn y datganiad hwn.

## Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg

Gweler y ddogfen gysylltiedig ar Ansawdd a Methodoleg: Prentisiaethau am wybodaeth fanwl.

### Dileu ac adfer ystadegau dysgu cymunedol awdurdod lleol

Fe'n hysbyswyd gan ddarparydd awdurdod lleol ar 25 Chwefror 2025 fod gwallau sylweddol yn y data a gyflwynwyd ganddo i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer 2023/24, cyn rhewi data yn derfynol ym mis Rhagfyr 2024.

Oherwydd maint posibl y broblem, mae ystadegau Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi cael eu dileu o'r adroddiad hwn, gan ddisgwyl ymchwiliadau pellach i faint y broblem ac i unrhyw broblemau tebyg yn y data a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol sy'n cyflenwi'r ddarpariaeth.

Roedd un awdurdod lleol wedi bod yn cyflwyno data dysgu i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) na ddylid bod wedi'u cynnwys. Mae'r awdurdod lleol wedi mynd ati i ganfod y data cywir ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 ac rydym wedi dileu'r data anghywir o'n hystadegau. Datgelodd yr ymchwiliad fod y problemau ansawdd data hyn hefyd yn bodoli mewn blynyddoedd blaenorol, ond nid yw'r blynyddoedd hyn wedi cael eu cywiro. Gellir cymharu ystadegau cenedlaethol dysgu oedolion â blynyddoedd blaenorol, ond dylid cofio effaith y broblem yn gysylltiedig ag ansawdd data.

Mae effaith y newid yn lleihau nifer y gweithgareddau dysgu a ddarparwyd ac a derfynwyd o 53,165 i 48,885. Gwnaeth leihau nifer y gweithgareddau dysgu asesadwy a derfynwyd o 26,185 i 25,955. Cynyddodd y gyfradd genedlaethol gyffredinol o 90% i 91% ar gyfer cyrhaeddiad a llwyddiant, ac o 86% i 87% ar gyfer llwyddiant. Nid oedd unrhyw newid i'r gyfradd gwblhau. O fewn yr awdurdod lleol, arweiniodd y newidiadau at ostyngiad 13 pwynt canran i'r gyfradd cwblhau, ac at gynnydd o 2 bwynt canran i'r gyfradd llwyddo.

Cynhaliom ymchwiliad i weld a allai'r broblem a godwyd effeithio ar awdurdodau lleol eraill. Cymharwyd nifer y gweithgareddau dysgu a ddarparwyd gan bob darparydd â lefelau cyllido, a chysylltu ag awdurdodau lleol â phatrymau afreolaidd. Ni chanfuwyd unrhyw broblemau.

Ariennir Dysgu Cymunedol Awdurdodau Lleol drwy'r Grant Dysgu Cymunedol. Yn y gorffennol bu'r grant yn ffynhonnell cymharol fach o gyllid. Yn wahanol i fathau eraill o ddysgu, ni chaiff data'r LLWR eu defnyddio i ddyrannu na dilysu'r dysgu a ddarperir drwy'r grant hwn. O ganlyniad i hyn, ceir mwy o bosibilrwydd am broblemau ansawdd data na fyddent yn effeithio ar brentisiaethau.

O hyn allan, ar ddechrau'r cyfnod cyllido nesaf, bydd Medr yn newid i ddefnyddio Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i adrodd a monitro yn erbyn darpariaeth y Grant Dysgu Cymunedol. Dylai ansawdd y data wella yn sgil hyn. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod y data'n cael eu cofnodi'n gywir ar LLWR drwy roi arweiniad a chymorth pellach.

Rydym yn bwriadu defnyddio data a gasglwyd yn ystod gaeaf 2025 i gynnal asesiad pellach o ansawdd data awdurdodau lleol ar gyfer dysgu yn y gymuned.

## Datganiad Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau, i gynyddu eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfio Medr yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi'u cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'r polisi mynediad at ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

### Ansawdd

Daw'r data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu. Defnyddir y data hyn hefyd i benderfynu ynghylch cyllid i ddarparwyr dysgu, ac maent yn destun archwiliad.

Pan gyflwynir y data, rhaid iddynt fodloni rhai rheolau dilysu. Pan gaiff yr ystadegau eu cynhyrchu cynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

### Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i roi cipolwg ar y ddarpariaeth dysgu yng Nghymru. Fe'u defnyddir i fonitro ac arfarnu'r sectorau dysgu yn y gwaith.

### Newid statws ystadegau achrededig

Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Gwladol (a elwir bellach yn Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan fod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi'i ddileu dros dro.

Mae Medr wedi parhau â systemau a phrosesau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu'r ystadegau, ac mae'r ystadegwyr sy'n cynhyrchu'r ystadegau'n cynnwys ystadegwyr a gynhyrchodd ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) yn asesu'r prosesau sydd ar waith ym Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd yr OSR yn asesu a yw'r ystadegau'n bodloni'r gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

## Ystadegau cysylltiedig

Cyhoeddwyd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon ar llyw.cymru.

Mae Myfyrwyr mewn addysg uwch: Awst 2023 i Orffennaf 2024 yn cynnwys manylion am ymrestriadau a chymwysterau myfyrwyr Addysg Uwch ac fe'i cyhoeddir yn ddiweddarach ar medr.cymru.

Mae Rhaglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd:Mai i Orffennaf 2024 yn cynnwys dangosfwrdd ac arno ddadansoddiadau manwl o brentisiaethau a ddechreuwyd.

Cafodd Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol: Awst 2023 i Orffennaf 2024 ei chyhoeddi ar 4 Mawrth.

Mae Mesurau perfformiad cyson dysgu ôl-16 (cyflawniad), Awst 2023 i Orffennaf 2024 yn cynnwys deilliannau ar gyfer addysg bellach a'r' chweched dosbarth, ac fe'i cyhoeddir yn ddiweddarach ar medr.cymru.

## Y Diweddariad Nesaf

**Dyddiad:** Mawrth 2026.

Cyfnod a drafodir: Awst 2024 i Orffennaf 2025.

Mae'n bosibl na fydd y diweddariad nesaf i'r ystadegau hyn ar yr un ffurf â'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth Gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: ystadegau@medr.cymru

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**